

Cyfle: Gosod batris rhwydwaith foltedd isel ar sawl safle ledled Sir Gaerfyrddin

Cyfleoedd ar gyfer gosod batris rhwydwaith foltedd isel ar safleoedd yn Sir Gaerfyrddin. Mae nifer o leoliadau ledled Sir Gaerfyrddin wedi'u nodi fel rhai allai fod yn addas ar gyfer gosod batris rhwydwaith foltedd isel. Nid oes gan y safleoedd ganiatâd cynllunio eto ar gyfer gosod y batris a bydd angen diwydrwydd dyladwy pellach ar y safle.

Wrth geisio mynegiadau o ddiddordeb, nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhwymo ei hun i symud ymlaen gyda phob un neu unrhyw safleoedd ac nid yw'n gwarantu y bydd y safleoedd yn mynd ymlaen neu y byddant yn parhau i fod ar gael.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cadw'r hawl i gynnwys safleoedd ychwanegol o fewn y cyfle hwn.

Bwriad yr hysbyseb hon yw ceisio mynegiadau o ddiddordeb yn unig. Os bydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael sawl datganiad o ddiddordeb, gellir cynnal ymarfer tendr anffurfiol.

I ddangos y gallu i ddatblygu'r cyfle hwn, bydd angen i unrhyw gyflwyniad o ddiddordeb gael ei ategu gan dystiolaeth bod gan eich sefydliad y canlynol ar waith (bydd methu â darparu'r dystiolaeth hon yn arwain at derfynu eich mynegiant o ddiddordeb):

- 1) Y gallu i ddefnyddio batris rhwydwaith o fewn rhwydwaith y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth o tua 200-400kW fesul safle;
- 2) Trefniadau ariannu ar gyfer caffael, gosod a gweithredu'r batris rhwydwaith sydd eu hangen;
- 3) Profiad blaenorol o osod datrysiadau storio ynni annomestig yn y 3 blynedd diwethaf;
- 4) Y gallu i gael caniatâd cynllunio llwyddiannus ar gyfer prosiectau storio ynni.

Bydd angen i'ch sefydliad nodi'n glir nifer y safleoedd y mae'n barod i'w bwrw ymlaen. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i sefydliadau sy'n barod i ddatblygu nifer fwy o safleoedd. Mae angen ymrwymiad i gyfnod prydles o ddim llai na 30 mlynedd (gyda chymalau seibiant cyfyngedig).

Cyflwyniad o ddiddordeb wedi'i gwblhau i'w gyflwyno drwy e-bost at Andrew Myden Cyngor Sir Gaerfyrddin-Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd erbyn dydd Gwener 6 Mehefin 2025 E-bost: aemmyden@carmarthenshire.gov.uk

Ni ystyrir cyflwyniadau hwyr. Ni fydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ad-dalu'r holl gostau nac unrhyw gostau gan unrhyw barti sy'n ymateb i'r hysbyseb hon.